# Panel Heddlu a Throseddu De Cymru

**ADRODDIAD AR BRAESEPT A GYNIGIR GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU AR GYFER 2018/19**

## Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei wneud i gydsynio â dyletswydd statudol Panel Heddlu a Throseddu De Cymru ("PHTDC") yn, Amserlen 5, Paragraff 3(2) Deddf Diwygio a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yr Heddlu 2011 ("y Ddeddf"). Rhaid i'r panel lunio adroddiad i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am y praesept a gynigir.

## Adolygiad o'r Praesept a Gynigir ar gyfer 2018/19

Hysbysodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru y PHTDC ar 22 Ionawr 2018 am y Praesept a Gynigir ar gyfer 2016/17

Cafwyd cyfarfod o PHTDC ddydd Mawrth 30 Ionawr 2018 i adolygu'r Praesept ac i adrodd yn ôl ar y praesept a gynigir. Mae copi o'r adroddiad yn cynnwys manylion y Praesept a gynigir ar gael i'w weld ar dudalennau PHTDC ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Dolen i Adroddiad Praesept

## Adroddiad

*Gwnaeth y PHTDC ystyried y praesept a gynigir a phenderfynu:*

*Cymeradwyo'r Praesept arfaethedig o £113,598,846 sef £233.52 (ar gyfer eiddo Band D0 ar gyfer 2018/19 a 7 % neu £15.28 cynnydd y flwyddyn.*

Gwnaeth y Panel yr argymhellion canlynol:

Er na chafodd y Praesept feto, gwnaeth y Panel ystyried fod y cynnig o 7% yn uchel. Yn ychwanegol, argymhellodd y Panel na ddylai unrhyw arbedion ariannol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19 ddod oddi wrth heddlua llinell flaen.

30 Ionawr 2018